**Eitem ar yr agenda: 3(i)**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau, Medi 21ain 2006 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| J Ovens (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Rheolwr Gweithrediadau); D G Roberts (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); H Angel (Swyddog Cefnogol Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog ); H Ellis (Rheolwr Adnoddau Dynol); G Watson (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

### 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

K W Finch — Trysorydd i'r Awdurdod

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Sharon Frobisher i'w chyfarfod cyntaf o'r Panel Gweithredol. Oherwydd absenoldeb estynedig y Cynghorydd David Jones o'r Awdurdod, roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi penodi'r Cynghorydd Frobisher fel un o'i gynrychiolwyr ar y Panel. Rhoddwyd croeso hefyd i Mr David Johnson, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Essex, a oedd yno fel sylwedydd.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd na chyflwynwyd unrhyw eitemau iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fai 18fed 2006.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

Roedd y mater canlynol yn codi o'r cofnodion:

**Tud. 9, Eitem 12 – Cyd-ymateb – y diweddaraf am y sefyllfa yn Genedlaethol:** Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod y gwrandawiadau yn yr Uchel Lys ynghylch cyd-ymateb a threfniadau cytundebol y Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003 i fod i ddechrau ar Hydref 16eg 2006. Y disgwyl oedd i'r ddau achos gael eu clywed y naill ar ôl y llall. Disgwylid hefyd y byddai'r penderfyniadau ynghylch y ddau achos yn cael eu cyhoeddi ar yr un diwrnod. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwrandawiadau, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y swyddogion yn gobeithio bod mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r treialon cyd-ymateb yn y Gogledd erbyn diwedd mis Hydref.

## 5) Strategaeth Archwilio 2005/06

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Matthew Edwards, Rheolwr Aseiniad, o Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) i'r cyfarfod i gyflwyno Strategaeth Archwilio'r Awdurdod am 2005/06 i'r aelodau. Cyn manylu ar wahanol agweddau o'r Strategaeth oedd yn yr adroddiad, esboniodd Mr Edwards ddyletswyddau statudol y Swyddfa, a'i swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau ariannol yr Awdurdod. O ran yr Archwiliad Ariannol, cafodd yr aelodau wybod bod y broses archwilio yn tynnu at ei therfyn ac y byddai'r Swyddfa mewn sefyllfa i gyhoeddi ei barn archwilio ar Ddatganiad o Gyfrifon 2005/06 erbyn diwedd mis Hydref 2006.

Roedd yr Archwiliad o Berfformiad hefyd yn mynd rhagddo'n dda, ac roedd disgwyl i'r gwaith archwilio ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad gael ei gwblhau ymhen ychydig wythnosau. Roedd cyfarfod i gael ei gynnal yn y dyfodol agos i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o asesu'r trefniadau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth (IM&T) ac roedd y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2005/06 i gael ei archwilio fel yn y blynyddoedd a fu. Y disgwyl oedd i'r gofyniad newydd ynghylch archwilio, a oedd yn gofyn am gyhoeddi Casgliad o Ran Defnydd Adnoddau, i fod yn derfynol cyn diwedd Rhagfyr 2006.

Bwriad y Swyddfa oedd cyflwyno'r Hysbysiad Ynglyn â'r Datganiadau i'r rhai Hynny sydd â Chyfrifoldeb dros Reolaeth – yr adroddiad ISA (UK and Ireland) 260 (a adwaenid yn flaenorol yn adroddiad SAS 610) i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ar Hydref 23ain 2006. Dywedodd Mr Edwards wrth yr aelodau nad oedd yn rhagweld unrhyw newid i ffioedd archwilio'r Swyddfa, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd yr aelodau'n cytuno â barn y Cynghorydd E C George sef y dylid ymgynghori â'r Cadeirydd yn y dyfodol, yn ogystal â'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd, wrth lunio strategaethau archwilio. Cytunodd Mr Edwards i'r cais hwn. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad, ac y dylai'r Cadeirydd, yn ogystal â'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd gael ei gynnwys yn y trafodaethau wrth lunio strategaethau archwilio yn y dyfodol.***

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Edwards am fynychu ac am gyflwyno ei adroddiad.

## 6) Cyllido'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am yr ohebiaeth ddiweddar oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ynghylch newidiadau posib i'r trefniadau cyllido presennol ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Cyn dechrau'r drafodaeth ar yr eitem fusnes hon, dosbarthwyd copïau i'r aelodau, er gwybodaeth, o lythyr ymateb Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i lythyr y Gweinidog. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth y Panel fod Awdurdod Tân ac Achub y De, cyhyd ag y gwyddai, mewn sefyllfa debyg i'r Gogledd yn yr ystyr eu bod wedi cyflwyno llythyr o gydnabyddiaeth i'r Gweinidog ac yn disgwyl i drafod eu hymateb mewn cyfarfod o'r Awdurdod llawn.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) fod llythyr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, dyddiedig Mehefin 12fed 2006, yn ceisio barn yr Awdurdod ar y bwriad i gyfyngu ar unrhyw gynnydd blynyddol yn ei gyllideb i'r cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) a ddyfernir i'w awdurdodau unedol cyfansoddol. Roedd y llythyr wedi bod yn un cwbl annisgwyl, ac roedd y bwriad i'w weld yn cymryd ymaith y gallu i benderfynu'n lleol ac yn cael mwy o reolaeth ganolog o arian cyhoeddus. Byddai newid o'r math hwn yn gofyn am ddiwygio gorchmynion cyfuno y tri awdurdod tân yng Nghymru. Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod

bwriad y Gweinidog yn gwbl annisgwyl. Nid oedd erioed wedi awgrymu'r pwnc yn unrhyw un o gyfarfodydd Grŵp Cyswllt Tân ac Achub Cymru (WF&RSLG). Aeth Mrs Docx ymlaen i esbonio bod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru berthynas waith iach gyda'i awdurdodau cyfansoddol. Roedd hyn yn talu ar ei ganfed, gyda'r awdurdodau'n cytuno i gynyddiadau uwch na'r cyfartaledd yn eu cyfraniadau i Gronfa Gyfun Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru. O'r herwydd, roedd yr Awdurdod wedi gallu gwneud mwy o waith Diogelwch Tân Cymunedol, a byddid yn sôn am lwyddiant hwnnw yn yr adroddiad ar Fonitro Perfformiad, oedd i'w drafod yn nes ymlaen.

Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn fod y system gyllido bresennol wedi gweithio'n dda dros y deng mlynedd diwethaf. Oherwydd hyblygrwydd y system, roedd gan yr Awdurdod, nid yn unig y dewis i fynd yn ôl at yr awdurdodau cyfansoddol i ofyn am gyfraniadau ychwanegol os oedd angen, ond roedd ganddo hefyd y dewis i ddychwelyd i'r awdurdodau unrhyw gyfraniadau oedd heb eu gwario neu heb eu neilltuo. Gan fod setliadau'r Grant ar gyfer awdurdodau lleol y Gogledd yn amrywio'n fawr o un awdurdod i'r llall, roedd gan ddyfarnu cyfartaledd y cynyddiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub y potensial i gael effaith andwyol ar ei allu a'i hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau oedd yn cwrdd ag anghenion a nodwyd yn lleol. Roedd y Panel o'r farn fod llythyr y Gweinidog yn cynnig system gyllido a fyddai mewn gwirionedd yn 'capio' awdurdodau tân ac achub; roedd 'capio' yn fesur yr oedd Cymdeithas Llywoedraeth Leol Cymru (WLGA) yn ei wrthwynebu'n gryf. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod ysgrifennu llythyr at y Gweinidog, un tebyg i'r un a anfonwyd gan Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin, yn gwrthod ei bwriadau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - anfon llythyr at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad***

*   ***i.*** ***yn mynegi bodlonrwydd cyffredinol yr Awdurdod ynghylch y system gyllido bresennol; ac***
*   ***ii.*** ***yn gwrthod ei chynnig i ddiwygio'r Gorchmynion Cyfuno fel na allai'r codiad blynyddol mewn gwariant net fynd yn uwch na'r codiad blynyddol yn y Grant Cynnal Refeniw fel y pennir yn flynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad.***

### 7) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân - Y Diweddaraf

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am ddyfodiad Cynllun Pensiwn newydd y Diffoddwyr Tân 2006, y newidiadau i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 a llacio'r gyfundrefn dreth pensiynau o ran rhoi cyfle i rywun godi pensiwn a pharhau i weithio. Esboniodd fod Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2006, ddaeth i rym ar Fehefin 23ain 2006 ac yn ôl-weithredol o Ebrill 6ed 2006, yn diwygio ac yn cydgrynhoi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992. Roedd yr awdurdodau yn dal i ddisgwyl i'r Gorchymyn newydd ar Gynllun

Pensiwn y Diffoddwyr Tan (Cymru) 2006 ddod i rym. Yna, cafodd y Panel esboniad manwl gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân o'r newidiadau i Gynllun 1992 yn cynnwys: cau'r Cynllun i recriwtiaid newydd o Ebrill 6ed 2006 ymlaen, trosglwyddo'r buddion cyfredol o ran marwolaeth ac anafiadau i Gynllun Iawndal annibynnol i'r Diffoddwyr Tân, trefniadau newydd ar gyfer dyfarniadau afiechyd; ac yn dilyn llacio'r rheolau treth, am y tro cyntaf, y cyfleoedd oedd bellach yn bod, yn ddibynnol ar gwrdd â rhai meini prawf, i staff gymryd rhai o'u buddion, neu'r holl fuddion, tra eto'n cael eu hailgyflogi gan yr Awdurdod. Yna, aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn ei flaen i roi manylion y Cynllun Pensiwn newydd ar gyfer Diffoddwyr Tân 2006 i'r aelodau. Dywedodd wrth y Panel y byddai'r Cynllun, wedi iddo gael ei sefydlu, yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân, yn cynnwys staff oedd yn gweithio y system ddyletswydd ran amser (RDS). Gan fod yr hen Gynllun wedi ei gau i recriwtiaid newydd ers Ebrill 6ed 2006 a'r Cynllun newydd heb ddod i rym eto, roedd trefniadau dros dro wedi eu gwneud er mwyn gallu rhoi recriwtiaid llawn amser a rhan amser newydd yn yr hen Gynllun hyd nes y byddai'r Cynllun newydd yn weithredol. I ateb cwestiynau gan yr aelodau, dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei fod yn rhagweld, yn dilyn y newidiadau i reolau treth incwm, y byddai'r rhan fwyaf o staff oedd yn dymuno cymryd y cyfle hwn, yn cael eu hailgyflogi yn eu swyddi presennol. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

***i. nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân; a***
***ii. dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân y cyfrifoldeb am lunio polisi i gymryd i ystyriaeth y newidiadau cyfreithiol i'r cynllun pensiwn, i gynnwys ailgyflogi staff wedi iddynt ymddeol.***

## 8) Pennu arbedion effeithlonrwydd o fewn 2006/07 i ymorol am y broses o gymhathu o rengoedd i rolau

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad cynnydd i'r aelodau (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ynghylch y broses o gymhathu o rengoedd i rolau, a chostau posib hynny. Esboniodd fod yr adroddiad wedi cael ei lunio i ymateb i gais gan yr aelodau wrth osod cyllideb 2006/07 y dylai unrhyw gynnydd mewn gwariant oherwydd y symud o rengoedd i rolau gael ei ariannu trwy arbedion effeithlonrwydd yn codi o'r Cynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP). Cafodd y Panel wybod mai anodd fyddai ar hyn o bryd, oherwydd y ffaith nad oedd y dull Cymru gyfan ar gyfer symud o rengoedd i rolau wedi ei gadarnhau tan Fehefin 2006, a'r dyddiad cychwyn oedd Gorffennaf 1af 2006, i bennu'r union gostau cynyddol a'r arbedion y byddai eu hangen i ymorol amdanynt. Rhoddodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) wybod i'r aelodau am y broses apeliadau oedd yn mynd rhagddi, a bod yr arwyddion presennol o ran y gost fel a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd hefyd yn hyderus y gellid cwrdd â'r goblygiadau o ran y gyllideb yn 2006/07 o'r tanwariannau a reolir, ac y gellid ariannu unrhyw ôl-daliadau o'r ddarpariaeth ar gyfer y symud o rengoedd i rolau. O 2007/08 ymlaen y byddai gofyn cael arbedion effeithlonrwydd i ariannu costau mynych.

Unwaith y byddid wedi gwrando ar yr apeliadau, ac y byddai'r costau hyn yn hysbys, byddai'r Panel yn cael adroddiad pellach yn cynnwys opsiynau ynghylch y ffordd i ddelio ag unrhyw gostau ychwanegol. Felly:

***Penderfynwyd*****: - nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 9) "Ar Draws Ffiniau" – Adroddiad Beecham

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhestru prif argymhellion Adroddiad Beecham ac yn ceisio cael y Panel i ystyried pa gamau y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub eu cymryd i ymateb iddo. Rhoddodd wybod i'r Panel am y cefndir a arweiniodd at sefydlu'r Tîm Adolygu a'r cylch gwaith a gawsant. Roedd y Tîm Adolygu wedi dod i'r casgliad y dylai cyflwyno gwasanaethau'r sector cyhoeddus mewn gwlad fechan o faint Cymru fod yn seiliedig ar yr egwyddorion cyffredin o ganolbwyntio ar y dinesydd, bod yn effeithlon ac yn atebol. Gellid cyflawni hynny trwy gyfuniad o wahanol ddulliau a ffactorau, yn cynnwys mwy o waith mewn partneriaeth/ar cyd, a rhagor o ddefnydd o graffu ar lefel genedlaethol a lleol. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi bod yn rhan o fentrau cydweithrediadol ac wedi gweithio ar y cyd. Roedd hefyd, trwy'r broses foderneiddio, wedi dangos ei barodrwydd i ymgysylltu â'r cyhoedd – sef un o negeseuon allweddol yr Adolygiad – trwy ei Gynllun Lleihau Risg a'i waith Diogelwch Tân Cymunedol. Roedd y Cynghorydd J Vaughan yn cytuno ag awgrym y Clerc y gallai pwyllgorau craffu awdurdodau lleol yn y dyfodol chwarae llawer mwy o ran trwy graffu ar benderfyniadau awdurdodau tân ac achub. Gallai'r un egwyddor gael ei defnyddio y ffordd arall hefyd.

Roedd y Cynghorydd E C George yn teimlo y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ymgysylltu fwy â'i awdurdodau cyfansoddol mewn nifer o faterion. Roedd o'r farn y gallai'r Contractau Gweithio Mewn Partneriaethau (PACts) arfaethedig roi cyfleoedd delfrydol i awdurdodau tân ac achub yrru materion a mentrau yn eu blaenau, y materion a'r mentrau hynny y buont yn lobïo'n barhaus yn eu cylch. Cyfeiriodd at osod systemau taenellu dŵr mewn ysgolion newydd a rhai sy'n cael eu hadnewyddu fel enghraifft bwysig o fater yr oedd yr Awdurdod wedi lobïo'n barhaus yn ei gylch, ac a allai elwa ar PACt i'w yrru yn ei flaen. Hysbysodd y Panel ei fod yn bwriadu codi'r mater o systemau taenellu dŵr mewn ysgolion yng nghyfarfod y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol (CFSC) ar Fedi 25ain 2006. Yn ei farn ef, dylai'r Cynulliad neilltuo swm o arian o fewn yr arian a ddarperir at gyfer adeiladau mewn ysgolion newydd neu ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu yn benodol at ddarparu systemau taenellu dŵr. Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei farn ef, ymweld â'r holl awdurdodau cyfansoddol i bwysleisio pa mor bwysig yw gosod systemau o'r fath, a beth yw'r manteision.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Prif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth wedi bod yn gwthio ers sawl blwyddyn am osod systemau taenellu dŵr mewn ysgolion newydd a rhai sy'n cael ei adnewyddu, ond yn ofer. Gofynnodd am gymorth yr aelodau i fwrw ymlaen â'r mater hwn o fewn eu hawdurdodau eu hunain gan

fod effeithiau tanau mewn ysgolion yn aruthrol, a hynny yn economaidd ac yn gymdeithasol. Roedd nifer o awdurdodau yn y gorffennol wedi cyfeirio at gost gosod systemau taenellu fel y prif ffactor oedd yn mynd yn erbyn eu cynnwys mewn cynlluniau adeiladu. Roedd awdurdodau addysg o'r farn fod y gallu i ddarparu ystafell ddosbarth ychwanegol yn gorbwyso'n fawr unrhyw fanteision a ddeuai o osod systemau taenellu dŵr. Dywedodd y Prif Swyddog Tân mai'r ffordd fwyaf effeithiol i orfodi awdurdodau i osod systemau taenellu dŵr fyddai newid y Rheoliadau Adeiladu. Ar hyn o bryd, nid oedd Rheoliadau Adeiladu yn fater oedd wedi ei ddatganoli, er mai'r gred oedd fod Llywodraeth y Cynulliad, dan bwerau Deddf Llywodraeth Cymru a fyddai'n dod i rym ym Mai 2007, wedi nodi'r maes hwn yn un y byddai efallai'n ceisio gweld trosglwyddo'r pwerau i'r Cynulliad. Yn ôl y Prif Swyddog Tân, byddai cost gosod system taenellu dŵr mewn ysgol newydd yn ychwanegu tua 1% at gost y prosiect. Byddai'r gost ychydig yn uwch mewn ysgol fyddai'n cael ei hadnewyddu. At ei gilydd, byddai'r gost yn fychan iawn o'i chymharu â cholli ysgol, neu fywyd hyd yn oed. Roedd yr aelodau o'r farn fod angen i awdurdodau addysg ystyried yr arbedion a ddeuai iddynt oherwydd premiymau yswiriant is petaent yn buddsoddi mewn systemau taenellu. Llongyfarchwyd Cyngor Sir Ddinbych a'r Cynulliad gan y Prif Swyddog Tân am sicrhau cyllid ychwanegol oedd yn golygu y byddai'r ysgol newydd oedd i'w hadeiladu ym Mhrestatyn yn y dyfodol agos yn cynnwys gosod system taenellu dŵr. Wedi trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi prif argymhellion Adroddiad Beecham a chynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg/Panel Gweithredol ar 9fed Hydref 2006 ynghylch y ffordd y gall yr Awdurdod ymgorffori argymhellion yr adroddiad yn ei strategaethau a pholisïau tân ac achub, a'u hintegreiddio i mewn i Gynlluniau Lleihau Risg yn y dyfodol.***

## 10) Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Safonau yr Awdurdod Tân ac Achub

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael y Panel i benodi aelod o'r Awdurdod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Sharon Frobisher. Esboniodd nad oedd rhwystr cyfreithiol rhag i'r Cynghorydd Frobisher barhau i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau a hithau bellach yn aelod o'r Panel Gweithredol, ond arfer yr Awdurdod yn y gorffennol oedd peidio â chael aelodau'n gwasanaethu ar y Panel Gweithredol ac ar y Pwyllgor Safonau. Yn dilyn llythyr y Clerc at yr aelodau yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, roedd dau aelod wedi cofrestru eu diddordeb. Roedd y Cynghorwyr Margaret Griffith a Cliff Shone ill dau yn gymwys i gael eu penodi, ond gan fod aelod arall yr Awdurdod ar y Pwyllgor hefyd yn un o gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, gwell efallai fyddai benodi'r Cynghorydd Shone i'r Pwyllgor Safonau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - penodi'r Cynghorydd Cliff Shone i'r Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau cyffredin nesaf yn 2008, a gwahodd yr Awdurdod i gadarnhau ei benodiad yn ei gyfarfod ar Hydref 23ain.***

## 11) Tân 1af" – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf am y tro i'r Panel am brosiect Tân Cyntaf y Rhyl. Dosbarthwyd copïau o'r daflen "Lle i Bawb" i'r rhai oedd yno, sef dogfen yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd yn cynnwys y cynlluniau ar gyfer yr orsaf newydd. Cyn mynd trwy gynnwys ei adroddiad, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ati i gyflwyno Mr Stephen Roberts i'r aelodau, sef Pennaeth yr Adran Rheoli Adnoddau ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cafodd y Cynghorydd J A Smith wybod gan y Clerc nad oedd y ffaith ei fod yn eistedd ar Fwrdd y Prosiect yn golygu buddiant personol a fyddai'n ei rwystro rhag cymryd rhan yn y drafodaeth. Cafodd yr aelodau wybod am gefndir y prosiect, y gwaith ymchwil a wnaethpwyd, yr adnoddau a fyddai ar gael yn yr orsaf, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith adeiladu, nawr bod y cyngor sir wedi rhoi caniatâd cynllunio. Byddai Ann Jones AC yn cynnal derbyniad yn y Senedd ym Mae Caerdydd ddydd Mawrth, Medi 26ain pryd y cynhelid arddangosfa am y prosiect. Byddai aelodau o dîm prosiect Tân Cyntaf y Rhyl, y Prif Swyddogion a Chadeirydd yr Awdurdod yno i ateb cwestiynau'r Aelodau o'r Cynulliad. Y gobaith oedd y byddai Llywodraeth y Cynulliad, cyn y derbyniad, yn cyhoeddi lefel y cyllid y byddai'n ei neilltuo tuag ar y prosiect. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wybod i'r Panel mai ei fwriad, wedi'r cyhoeddiad am y grant, oedd cyflwyno adroddiad mwy manwl i'r cyfarfod o'r Panel ar Hydref 9fed 2006 yn cynnwys y costau manwl a'r opsiynau ynghylch cyllido'r prosiect. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd J A Roberts, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi awgrym am swm y grant a ddyfernid, ond gan nad oedd y ffigwr wedi ei gadarnhau eto, byddai'n rhaid ei adrodd dan fusnes Rhan II.

Mynegodd y Cynghorydd J Vaughan ei hamheuon am hyfywedd hirdymor y prosiect, er ei bod yn croesawu'r fenter a'r cysyniad. Yn ei phrofiad hi o brosiectau cymunedol tebyg, roedd yna dueddiad wedi rhai blynyddoedd iddynt gael trafferth i sicrhau cyllid parhaol. Yn ei thyb hi, roedd angen i'r Awdurdod fod yn sicr fod y partneriaethau oedd yn rhan o'r prosiect fod yn rhai cadarn a hirdymor. I ateb pryderon y Cynghorydd Vaughan, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wrth yr aelodau fod Rheolwr Diogelwch Sir Ddinbych gyda'r Gwasanaeth, sef Mr Alyn Edwards, wedi gwneud cryn dipyn o waith gyda sefydliadau ac asiantaethau allanol, yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, i sicrhau hyfywedd y prosiect.

Holodd y Cynghorydd J A Roberts a fyddai Caergybi, oedd â phedair ardal Cymunedau yn Gyntaf, yn cael ei dewis fel man ar gyfer gorsaf dân gymunedol yn y dyfodol. Wrth ateb, atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod y cysyniad o orsafoedd tân cymunedol yn rhan o Gynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP) yr Awdurdod, a byddai datblygu'r gorsafoedd yn brosiect tymor hir a threiglol, gan ddibynnu ar yr anghenion yn lleol ac ar waith adnewyddu. Yr unig reswm y dewiswyd y Rhyl fel y gyntaf oedd fod angen adnewyddu'r orsaf a bod

y safle'n ei gynnig ei hun ar gyfer ei ailddatblygu yn dilyn symud Pencadlys y Gwasanaeth i Lanelwy. Yr uchelgais yn y tymor hir oedd i bob gorsaf fod yn orsaf dân gymunedol. Llongyfarchwyd pawb oedd yn ymwneud â'r prosiect gan yr Is-Gadeirydd, ac yn ei farn fe allai gorsafoedd tân gwledig elwa'n fawr ar droi'n orsafoedd cymunedol, ond roedd yn rhybuddio'r Awdurdod rhag dyblygu gwasanaethau lleol. Felly:

***Penderfynwyd:* - nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 12) Monitro Perfformiad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybodaeth i'r aelodau am berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn gwahanol ddangosyddion perfformiad yn ystod y chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2006/07, sef o Ebrill 1af tan Fehefin 30ain. Cyn rhoi crynodeb o'r meysydd pwysig, esboniodd fod cyflwyno'r adroddiad chwarterol, ymghyd â'r daflen grynodeb yn rhoi ystadegau Gorffennaf i Awst a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, yn rhan hanfodol o lywodraeth gorfforaethol dda. Cafodd aelodau'r Panel wybod mai siom oedd adrodd fod nifer y tanau bwriadol yn cynyddu, er bod yr Awdurdod yn perfformio'n dda mewn meysydd megis nifer y tanau mewn cartrefi. Roedd angen gwneud rhagor o waith felly gyda sefydliadau partneriaethol trwy weithgorau ar y cyd megis y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Siom oedd adrodd na fyddai'r Awdurdod yn cwrdd â'r darged eleni mewn perthynas â marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. Ond, fel arall, roedd nifer yr anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yn gostwng; tra roedd nifer y galwadau ffug maleisus a nifer y galwadau diangen o larymau tân awtomatig naill ai ar y targed neu'n is na ffigurau y llynedd. Rhoddodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) wybod i'r aelodau fod larymau mwg wedi canu yn 50% o'r cartrefi yr aeth y Gwasanaeth allan at dân ynddynt, a hynny am y tro cyntaf ers cofnodi'r mesurydd perfformiad hwn. Roedd hyn yn profi bod gwaith Diogelwch Tân yr Awdurdod yn gweithio a bod pobl yn cymryd sylw o'r cynghorion. O ran absenoldebau salwch, da oedd adrodd bod gweithdrefn rheoli salwch yr Awdurdod i'w gweld yn talu ar ei chanfed gan fod y Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau yn hyn o beth yn dangos gwelliant o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, er nad oedd y targedau a osodwyd wedi eu cyrraedd. Pwysig hefyd oedd cofio bod y targedau yr oedd yr Awdurdod wedi eu gosod iddo'i hun yn hyn o beth yn hynod o heriol. I ateb cwestiwn ynghylch a oedd y newid yn amser shifftiau mewn gorsafoedd criw dydd wedi cael effaith ar y gyfradd salwch, dywedodd y swyddogion nad felly y bu, roedd y gyfradd absenoldeb salwch wedi gostwng ynunion wedi'r newid ond roedd wedi cynyddu'n ddiweddar oherwydd salwch tymor hir a achoswyd gan anaf. Oherwydd prinder staff a'r llwyth gwaith ychwanegol, ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o ran talu anfonebau diddadl am nwyddau a gwasanaethau masnachol o fewn 30 niwrnod.

I ateb cwestiynau gan yr aelodau, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod nifer yr erlyniadau llwyddiannus a ddygwyd

mewn perthynas â thanau bwriadol wedi cynyddu yn y dwy flynedd diwethaf. Roedd hefyd yn pwysleisio fod lefel y dystiolaeth yr oedd ei angen gan yr heddlu i gael erlyniad llwyddiannus yn llawer mwy na'r hyn y byddai'r gwasanaeth tân ac achub ei angen i gategoreiddio tân yn achos o losgi bwriadol. O ran y mathau o gartrefi lle roedd larymau tân yno ond heb ganu pan roedd tân, dywedwyd wrth y Panel fod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn rhagweithiol yn gosod larymau mwg yn eu heiddo, ond unwaith yr oeddent wedi eu gosod, cyfrifoldeb y tenant fyddai gofalu'n rheolaidd fod y ddyfais yn gweithio'n iawn a pheidio â thynnu'r batris allan ar gyfer rhywbeth arall. Addawodd y swyddogion roi dadansoddiad gyda'r adroddiad chwarterol nesaf o'r mathau o gartrefi fesul ardal yr awdurdodau unedol lle nad oedd larwm mwg wedi canu pan oedd tân er bod un wedi'i osod.

Holodd y Cynghorydd J Vaughan a oedd tanau mewn carafannau sefydlog yn achosi mwy o fygythiad i fywyd na thanau mewn tai. Dywedodd y swyddogion nad oedd carafannau sefydlog yn fwy o fygythiad i fywyd nag unrhyw fath arall o annedd. Yn anffodus, bron yn ddieithriad, ffordd o fyw yr unigolion oedd yn arwain at danau. Byddai'r mathau yma o gartrefi yn elwa o'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a ddeuai i rym ar Hydref 1af 2006.

Dywedwyd wrth y Panel fod y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) bellach yn cadeirio pwyllgor a sefydlwyd i fynd i'r afael â phroblem galwadau diangen oherwydd systemau larwm awtomatig mewn sefydliadau megis ysbytai a phrifysgolion. Roedd y pwyllgor wrthi'n datblygu strategaeth yn seiliedig ar bolisi Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) ar y ffordd i ddelio â galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig yn y math yma o sefydliadau. Er nad oedd penodi "hyrwyddwyr materion tân", fel mewn prifysgolion yn Lloegr gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG,) wedi cael ei ystyried, daeth i'r amlwg fod rhai prifysgolion yn rhoi cosbau ariannol i fyfyrwyr oedd yn gwneud drygau, yn cynnwys achosi i larymau tân ganu. Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc fod yr Awdurdod wedi cyflwyno sylwadau i'r Cynulliad ar sawl achlysur iddo gynnwys y gallu i godi taliadau am ymateb dro ar ôl tro i alwadau diangen o systemau awtomatig yn ei Orchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006, ond roedd y Cynulliad wedi gwrthod gwneud hyn. Roedd yn ymddangos felly bod rhai sefydliadau wedi sicrhau ffynhonnell ychwanegol o arian trwy roi dirwy i rai oedd yn euog am ganu larymau, tra roedd y Gwasanaeth yn troi allan at y digwyddiadau hyn a'r trethdalwr yn talu. Fe allai'r ffaith fod y sefydliadau yma yn codi dirwyon gan elwa'n ariannol ar hynny fod yn eu hannog i beidio â gostwng nifer y galwadau diangen. Yn ystod y drafodaeth uchod, datganodd y Cynghorydd E C George fuddiant fel aelod o Lys Prifysgol Cymru. Cyn cloi'r drafodaeth, cynigiodd y Prif Swyddog Tân roi copi i'r aelodau o adroddiad a drafodwyd yng nghyfarfod Grŵp Cyswllt Tân ac Achub Cymru ar Fedi 18fed ynghylch systemau awtomatig mewn safleoedd iechyd. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. nodi cynnwys yr adroddiad ar fonitro perfformiad;***

ii. ***bod papur atodol yn cael ei gynnwys gyda'r adroddiad chwarterol nesaf ar Fonitro Perfformiad yn rhestru nifer y tai preifat, tai cymdeithasau tai a thai awdurdodau lleol fesul ardal pob awdurdod unedol ar gyfer BV209ii (canran y tanau mewn cartrefi lle roedd larwm mwg yno ond heb ganu) er mwyn i'r aelodau allu penderfynu a oes angen camau penodol i ddelio â'r broblem; a***

iii. ***bod copi yn cael ei anfon at bob aelod o'r adroddiad a drafodwyd gan Grŵp Cyswllt Tân ac Achub Cymru yn ei gyfarfod ar Fedi 18fed 2006 ynghylch systemau awtomatig ar safleoedd iechyd.***

### 13) Estyniad i Dâl Salwch

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaed gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd mewn perthynas â chaniatáu estyniad i dâl salwch:

***Penderfynwyd: - nodi'r adroddiad***

### 14) Materion Brys

Dim.

### 15) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) i ddod

Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd: - bod y cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol, a drefnwyd ar gyfer dydd Llun, Hydref 9fed 2006 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy, yn dechrau am 11.30 y bore.***

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitemau busnes oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg. Felly:

***Penderfynwyd: - yn unol ag Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol,1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

## RHAN II

### 16) Materion yr Ystad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am ddau fater yn ymwneud ag ystad yr Awdurdod. Cyn dechrau'r drafodaeth,

datganodd y Cynghorwyr E C George a M Williams fuddiant mewn perthynas â'r mater oedd yn ymwneud â gorsaf dân Wrecsam, a hynny fel cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar yr Awdurdod. Dywedodd y Clerc wrthynt y byddent yn cael siarad ar y mater yn y cyfarfod hwn gan mai er gwybodaeth y cyflwynwyd yr adroddiad ac nad oedd penderfyniad yn cael ei geisio ar hyn o bryd. Cytunodd i ymchwilio ymhellach i weld a fyddai cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael cymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio pan fyddai angen penderfyniad ynghylch y mater. Cafodd y Cynghorydd J A Roberts wybod nad oedd angen iddo ddatgan buddiant fel un o weithwyr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Cafodd aelodau'r Panel wybod gan y swyddogion fod yr adroddiadau a gyflwynwyd iddynt yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am y ddau fater. Dywedodd y Prif Swyddog Tân y byddai'n argymell bod aelodau'r Panel yn ymweld â'r safle yn Wrecsam er mwyn iddynt ymgyfarwyddo eu hunain â'r materion oedd yn ymwneud â'r prosiect cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Cyn trafod y mater oedd yn ymwneud â gorsaf dân Llandudno, cafodd y Cynghorydd J Vaughan wybod gan y Clerc nad oedd unrhyw reswm iddi ddatgan buddiant fel Cynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan nad oedd y cyngor yn rhan o'r mater dan drafodaeth. Holodd y Cynghorydd Vaughan a fyddai'r ganolfan siopa newydd a oedd i fod i agor ger yr orsaf dân yn ystod mis Hydref 2006 yn mynd i greu rhwystr i'r Gwasanaeth wrth fynd i mewn ag allan o'r orsaf. Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wrthi fod swyddogion wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd y cyngor ynghylch arwyddion a marciau ffordd yn yr ardal honno. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

- ***i. nodi'r wybodaeth am orsaf dân Wrecsam a threfnu ymweliad â'r safle cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar y mater; ac***
- ***ii. awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i ddileu o'r rhaglen gyfalaf bryniant tir ychwanegol ac adeiladu ffordd fynediad newydd yng Ngorsaf Dân Llandudno, cynrychiolai hyn gredyd o £36,535.***

## 17) Y Diweddaraf am y Rhaglen Gyfalaf

Cyn dechrau ar yr eitem fusnes hon, datganodd y Cynghorydd J A Roberts fuddiant fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, ac ymatalodd o'r drafodaeth a'r bleidlais.

Yna, cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau ar raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Adnoddau. Esboniodd mai diben yr adroddiad rheolaidd hwn oedd rhoi gwybodaeth i'r aelodau am raglen gyfalaf yr Awdurdod a hynt gwahanol brosiectau. Rhoddodd wybod i'r aelodau hefyd am swm ddisgwyliedig y grant y disgwylid i Lywodraeth y Cynulliad ei gyhoeddi tuag at brosiect gorsaf dân Tân Cyntaf y Rhyl:

***Penderfynwyd*: - nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 12 Rhagfyr, 2006